



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cyfraith achosion yr UE a gedwir

**Ymgynghoriad ar alluogi llysoedd a
thribiwnlysoedd yn y DU i wro oddi wrth
gyfraith achosion yr UE a gedwir**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 2 Gorffennaf 2020

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 13 Awst 2020



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cyfraith achosion yr UE a gedwir

Ymgynghoriad ar alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir

Ymgynghoriad wedi'i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn <https://www.gov.uk/government/consultations/departure-from-retained-eu-case-law-by-uk-courts-and-tribunals>



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

I:

- Llywydd y Goruchaf Lys
- Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr
- Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn
- Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon
- Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd
- Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban
- Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru
- Y Barnwr Adfocad Cyffredinol
- Llywodraeth yr Alban
- Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Yr Arglwydd Adfocad
- Twrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon
- Gwasanaeth Erlyniadau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon
- Y Pwyllgor Cyfraith Ryngwladol
- Cymdeithas y Cyfreithwyr
- Cymdeithas Cyfreithwyr Gogledd Iwerddon
- Cymdeithas Cyfreithwyr yr Alban
- Cymdeithas Cyfreithwyr Dinas Llundain
- Cyngor y Bar
- Bar Gogledd Iwerddon
- Cymdeithas Adfocadau
- Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol
- Cymdeithas Cyfreithwyr Cyflogaeth
- Cymdeithas Cyfreithwyr Ansoffedd
- Canolfan y Gyfraith, Gogledd Iwerddon
- Cyfarwyddwr Erlyniadau'r Lluoedd Arfog
- Siambr Fasnach Prydain
- Siambr Fasnach yr Alban
- Siambr Fasnach Gogledd Iwerddon
- Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain
- Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain yr Alban
- Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain Gogledd Iwerddon
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr
- Sefydliad Cyfarwyddwyr yr Alban
- Sefydliad Cyfarwyddwyr Gogledd Iwerddon
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Ffederasiwn Busnesau Bach yr Alban



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Ffederasiwn Busnesau Bach Gogledd Iwerddon
Cyngres yr Undebau Llafur
Cyngres Undebau Llafur yr Alban
Cyngres Undebau Llafur Iwerddon
Asiantaeth yr Amgylchedd
Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban
Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon
Natural England
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Safonau Bwyd yr Alban
Asiantaeth Safonau Bwyd Gogledd Iwerddon
Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig
Y Sefydliad Morol
Sefydliad Morol yr Alban
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Gogledd
Iwerddon
Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon
Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon

Hyd:

6 wythnos

Rhwng 2 Gorffennaf 2020 a 13 Awst 2020

Ymholiadau i sylw:

Joanne Thambyrajah

Ffôn: 020 3334 3181

E-bost:

Judicial_Policy_Correspondence@Justice.gov.uk

Sut i ymateb:

Dylech ymateb drwy anfon e-bost i

Judicial_Policy_Correspondence@Justice.gov.uk

erbyn 13 Awst 2020.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Y Ddeddfwriaeth Berthnasol	2
Y Camau Nesaf ac Amseriad	4
Materion i'w hystyried	6
Datblygu cyfraith achosion y DU	7
Eglurder a sicrwydd y gyfraith	8
Yr effaith ar weinyddu cyfiawnder, a'r ffordd mae llysoedd a thriwlynlysoedd y DU yn gweithredu	Error! Bookmark not defined.
Effeithiau ar Gydraddoldeb	Error! Bookmark not defined.
Ein safbwyntiau rhagarweiniol	Error! Bookmark not defined.
A ddylid ymestyn y pŵer i wro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir	Error! Bookmark not defined.
Bookmark not defined.	
Pa lysoedd neu driwlynlysoedd ddylai gael y pŵer i wro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir	Error! Bookmark not defined.
Yr amgylchiadau neu'r graddau na fydd llys neu driwlynlys perthnasol yn rhwym wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir	Error! Bookmark not defined.
A ddylid cynnwys prawf	Error! Bookmark not defined.
Cymhwyso'r prawf	Error! Bookmark not defined.
Yr ystyriaethau a fydd yn berthnasol i lysoedd a thriwlynlysoedd wrth wro oddi wrth gyfraith achosion y DU a gedwir	24
Casgliad	24
Cwestiynau'r Ymgynghoriad	26
Manylion cyswllt / sut i ymateb	29
Cwynion neu sylwadau	29
Cyhoeddi ymateb	29
Grwpiau cynrychioladol	29
Gwybodaeth amdanoch chi	30
Cyfrinachedd	31

Cyflwyniad

Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 ("Deddf 2020"), yn pennu'r fframwaith cyfreithiol ar ôl i ni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

Nod y ddeddfwriaeth hon yw rhoi eglurder cyfreithiol a sicrwydd yn ein cyfraith ar ôl i ni ymadael â'r UE. Mae'n amlinellu pa elfennau o gyfraith yr UE sy'n cael eu cadw yng nghyfraith y DU, a sut dylid dehongli cyfraith yr UE a gedwir, gan gynnwys i ba raddau y mae cyfraith achosion Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei chadw ac i ba raddau y dylai llysoedd a thriwilysoedd yn y DU ei dilyn.

Mae'r papur hwn yn gofyn am farn ar y defnydd o bŵer yn adran 6(5A) o Ddeddf 2018, (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2020), sy'n galluogi'r Llywodraeth i wneud y canlynol:

- dynodi pa driwilysoedd neu lysoedd ychwanegol fydd â'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir;
- pennu i ba raddau, neu ym mha amgylchiadau, na fydd y llys neu'r triwilysoedd yn rhwym wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir;
- amlinellu'r prawf y bydd yn rhaid i driwilysoedd neu lys perthnasol ei ddefnyddio wrth benderfynu a fydd yn gwyro oddi wrth unrhyw gyfraith achosion yr UE a gedwir;
- pennu'r ystyriaethau a fydd yn berthnasol i'r llys neu'r triwilysoedd wrth wneud penderfyniadau o'r fath.

Bydd y pŵer hwn yn galluogi'r Llywodraeth i gael cydbwysedd rhwng yr angen i gael sicrwydd cyfreithiol, a'r angen i'r gyfraith barhau i ddatblygu ac adlewyrchu anghenion y DU wrth iddynt newid ar ôl i ni ymadael â'r UE.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei anfon at aelodau'r farnwriaeth yng ngwahanol systemau cyfreithiol y DU, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban, a chyrrff cynrychiadol yn y sector cyfreithiol, busnesau ac asiantaethau gorfodi, gan ofyn am eu barn ynghylch arfer y pŵer i wneud y rheoliadau hyn.

Y Ddeddfwriaeth Berthnasol

Mae Adran 6 o Ddeddf 2018 yn gwneud darpariaeth i Weinidog y Goron wneud rheoliadau a fydd yn golygu nad yw rhai llysoedd a thriwilysoedd yn rhwym wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Cafodd ei diwygio gan Adran 26(1) o Ddeddf 2020 i gyflwyno pwerau gweinidogol newydd i amlinellu llysoedd a thriwilysoedd eraill a all wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Cyfraith achosion yr UE a gedwir

Ymgynghoriad ar alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir

Dim ond wrth ddehongli cyfraith yr UE a gedwir y mae'r pŵer hwn yn berthnasol. Ni fydd yn effeithio ar ddehongli cyfraith *nad* yw'n gyfraith yr UE a gedwir. Er enghraifft, mae Adran 7A o Ddeddf 2018 yn gweithredu'r hawliau a'r rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Ymadael a Phrotocol Gogledd Iwerddon. Rhaid dehongli'r hawliau hyn yn unol â thelerau'r Cytundeb Ymadael (gan gynnwys cyfreitheg Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, pan fo'n berthnasol).¹ Nid yw'r pŵer hwn yn effeithio ar y rhwymedigaeth hon. Hefyd, rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth yn y DU (gan gynnwys cyfraith ddomestig sy'n rhan o gyfraith yr UE a gedwir), sy'n gweithredu gofynion y Cytundeb Ymadael, gael ei dehongli yn unol â'r Cytundeb Ymadael. Ni fyddai llysoedd a thribiwnlysoedd yn gallu gwro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn yr amgylchiadau hyn.

Fel y nodir uchod, caiff y Gweinidog, drwy reoliadau o'r fath, wneud y canlynol:

- dynodi tribiwnlysoedd neu lysoedd ychwanegol yn llysoedd perthnasol, a fydd â'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir;
- pennu i ba raddau, neu ym mha amgylchiadau, na fydd y llys neu'r tribiwnlys yn rhwym wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir;
- amlinellu'r prawf y bydd yn rhaid i dribiwnlys neu lys perthnasol ei ddefnyddio wrth benderfynu a fydd yn gwro oddi wrth unrhyw gyfraith achosion yr UE a gedwir;
- pennu'r ystyriaethau a fydd yn berthnasol i'r llys neu'r tribiwnlys wrth wneud penderfyniadau o'r fath.

Cyn gwneud y rheoliadau hyn, rhaid i Weinidog y Goron ymgynghori â'r canlynol:

- Llywydd Goruchaf Lys y DU;
- Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr;
- Arglwydd Lywydd Llys Sesiwn yr Alban;
- Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon;
- Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd; a
- phobl eraill o'r fath a fydd yn briodol ym marn Gweinidog y Goron.

Mae'n bwysig sicrhau cysondeb a sicrwydd cyfreithiol yng nghyswllt cyfraith yr UE a gedwir fel y mae'n berthnasol yn y DU, i'r graddau y mae hynny'n bosib ac yn ymarferol, gan sicrhau ar yr un pryd bod digon o gyfle i'r rheini sydd am herio cyfraith achosion yr UE a gedwir i wneud hynny o fewn cyfnod rhesymol, gan ein bod wedi gadael yr UE. Gan y bydd y rheoliadau hyn yn berthnasol ar draws y DU, rydym ni o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â'r Arglwydd Adfocad, Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Twrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon, a Gwasanaeth Erlyniadau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon.

Mae'r proffesiwn cyfreithiol yn rhanddeiliad allweddol yng ngweithrediaeth y system gyfiawnder, sydd â'r arbenigedd perthnasol a'r wybodaeth weithredol ynghylch a yw

¹ Gweler adran 7C a 6(6A) o Ddeddf 2018.

unrhyw bolisiâu yn ymarferol bosib. Felly, rydym ni o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â'r sector gwasanaethau cyfreithiol, sef y Pwyllgor Cyfraith Ryngwladol, Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cymdeithas Cyfreithwyr Dinas Llundain, Cymdeithas Cyfreithwyr Gogledd Iwerddon, Cymdeithas Cyfreithwyr yr Alban, Cyngor y Bar, Bar Gogledd Iwerddon, Cymdeithas Adfocadau, Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol, Cymdeithas Cyfreithwyr Cyflogaeth, Cymdeithas Cyfreithwyr Ansoffedd, a Chanolfan y Gyfraith Gogledd Iwerddon.

Yn olaf, bydd y cynigion hyn yn cael effaith uniongyrchol ar System Gyfiawnder y Lluoedd Arfog, busnesau a rhai cyrff gorfodi lle mae maes y pwnc wedi cael ei ddatblygu gan gyfraith yr UE i raddau helaeth. Am y rheswm hwn, rydym ni o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â'r Barnwr Adfocad Cyffredinol, Cyfarwyddwr Erlyniadau'r Lluoedd Arfog, Siambr Fasnach Prydain, Siambr Fasnach yr Alban, Siambr Fasnach Gogledd Iwerddon, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain – yr Alban, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain – Gogledd Iwerddon, Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Sefydliad Cyfarwyddwyr yr Alban, Sefydliad Cyfarwyddwyr Gogledd Iwerddon, Ffederasiwn Busnesau Bach, Ffederasiwn Busnesau Bach yr Alban, Ffederasiwn Busnesau Bach Gogledd Iwerddon, Cyngres yr Undebau Llafur, Cyngres Undebau Llafur yr Alban, Cyngres Undebau Llafur Iwerddon, Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, Natural England, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Safonau Bwyd yr Alban, Asiantaeth Safonau Bwyd Gogledd Iwerddon, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, Y Sefydliad Morol, Sefydliad Morol yr Alban, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Gogledd Iwerddon, Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon, a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon i sicrhau ein bod yn gwybod beth fydd holl effaith y cynigion ac yn ystyried yr effaith honno cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Rydym wedi nodi cwestiynau ar ddiwedd ein hasesiad o'r cynigion, a byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb pob un ohonynt.

Y Camau Nesaf ac Amseriad

Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am chwe (6) wythnos, er mwyn i'r rheini y bydd y cynigion yn effeithio arnynt gael cyfle i wneud sylwadau arnynt. Rydym yn fodlon bod y cyfnod ymgynghori yma yn ddigon hir gan ein bod yn targedu partneriaid a rhanddeiliaid â buddiant, er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y cynigion hyn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein hefyd, ac mae modd ei weld drwy ddilyn y ddolen ganlynol: <https://www.gov.uk/government/consultations/departure-from-retained-eu-case-law-by-uk-courts-and-tribunals>. Byddem yn falch o gael safbwyntiau ar y cynigion hyn gan bobl eraill â buddiant.

Cyfraith achosion yr UE a gedwir

Ymgynghoriad ar alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU i wro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn ni'n ystyried holl safbwyntiau a chynigion yr ymatebwyr, a byddwn yn cyhoeddi ymateb. Os gwneir unrhyw reoliadau yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, fe'u gwneir yn unol â'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae'r pŵer i gyflwyno rheoliadau o'r fath yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, felly rhaid i unrhyw reoliadau gael eu gwneud cyn y dyddiad hwnnw.

Materion i'w hystyried

Yn unol ag Adran 6 o Ddeddf 2018 (fel y'i diwygiwyd), ni fydd llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU yn rhwym mwyach wrth egwyddorion a bennir gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, nac wrth unrhyw benderfyniadau a wneir gan y llys hwnnw, ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben (11pm ar 31 Rhagfyr 2020). Fodd bynnag, mae hefyd yn gwneud darpariaeth y dylai cyfraith yr UE a gedwir, cyn belled nad yw'r gyfraith honno wedi cael ei haddasu ar ddiwedd y Cyfnod Pontio neu ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben, ac i'r graddau y mae'n berthnasol, gael ei dehongli yn unol â chyfraith achosion a gedwir.

Mae cyfraith achosion a gedwir yn cynnwys cyfraith achosion ddomestig a gedwir, a chyfraith achosion yr UE a gedwir. Mae cyfraith achosion ddomestig a gedwir yn golygu'r penderfyniadau a'r egwyddorion a bennwyd gan lysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU cyn i'r Cyfnod Pontio ddod i ben, mewn perthynas â chyfraith yr UE a gedwir o dan Ddeddf 2018 (yn amodol ar rai eithriadau). Mae hyn yn cynnwys cyfraith achosion fel y'i haddaswyd gan gyfraith y DU ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben. Mae cyfraith achosion yr UE a gedwir yn golygu'r penderfyniadau a'r egwyddorion a bennwyd gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, mewn perthynas â chyfraith yr UE a gedwir o dan Ddeddf 2018 (yn amodol ar rai eithriadau), a oedd yn berthnasol ar ddiwedd y Cyfnod Pontio neu cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben, fel y'u haddaswyd gan gyfraith y DU. Dim ond Goruchaf Lys y DU neu Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban, fel y llys apeliadau troseddol terfynol yn yr Alban mewn amgylchiadau pan nad oes modd cyflwyno apêl i Oruchaf Lys y DU, sydd â'r awdurdodaeth i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, ac wrth wneud hynny byddent yn defnyddio'r rheolau maent yn eu harfer wrth wyro oddi wrth eu cyfraith achosion flaenorol eu hunain.

Wrth ystyried a ddylid arfer y pŵer i wneud rheoliadau, ac os felly sut dylid gwneud hynny, er mwyn ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd a thribiwnlysoedd is ychwanegol, rydym yn ystyried sut byddai opsiwn yn effeithio ar y canlynol:

- datblygu cyfraith achosion yn y DU ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben;
- eglurder a sicrwydd y gyfraith yn y DU;
- gweinyddu cyfiawnder a'r effaith weithredol ar lysoedd a thribiwnlysoedd yng ngwahanol awdurdodaethau cyfreithiol y DU; ac
- ein rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:
 - rhoi sylw dyledus i'r canlynol –
 - yr angen i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth;
 - datblygu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu; a

Cyfraith achosion yr UE a gedwir

Ymgynghoriad ar alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir

- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd hon.

Ar sail asesiad rhagarweiniol yn unol â'r meini prawf uchod, rydym wedi nodi dau opsiwn polisi yr ydym ni o'r farn a allai gyflawni'r nodau polisi, sef galluogi mwy o lysoedd i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, a chynnal sicrwydd cyfreithiol ar draws y DU ar yr un pryd. Dyma'r opsiynau:

1. Ymestyn y pŵer i Lys Apêl Cymru a Lloegr a'r llysoedd sydd fwyaf cyfatebol iddo yn awdurdodaethau eraill y DU; neu
2. Ymestyn y pŵer i Uchel Lys Barn Cymru a Lloegr a'r llysoedd sydd fwyaf cyfatebol iddo yn awdurdodaethau eraill y DU, yn ogystal ag i'r Llys Apêl a'r llysoedd cyfatebol.

Byddai'r Llywodraeth yn falch o gael safbwyntiau'r ymgynghoreion ar y cynigion a'u heffeithiau, a fydd yn cyfrannu at y penderfyniad terfynol.

Datblygu cyfraith achosion y DU

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod Deddf 2018, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2020, wedi rhagweld yr angen i lysoedd a thribiwnlysoedd y DU allu gwro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y ffordd mae ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn dehongli'r gyfraith yn newid dros amser – mae cyfraith achosion yn datblygu, ac mae ein dealltwriaeth o'r gyfraith yn datblygu'n unol â hynny. Wrth i ni ymadael â'r UE, ac wrth i'r Cyfnod Pontio ddod i ben ym mis Rhagfyr, bydd y cyd-destun ar gyfer ystyried cyfraith yr UE a gedwir, a chyfraith achosion yr UE a gedwir, yn newid yn sylfaenol. Fel y gall llysoedd a thribiwnlysoedd wyro oddi wrth eu cyfraith achosion eu hunain ar hyn o bryd, mae angen i lysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU allu gwro oddi wrth y corff o gyfraith achosion yr UE a gedwir mewn amgylchiadau tebyg.

Mae Deddf 2018 yn cyflwyno'r pŵer hwnnw i Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban² (fel y llys apeliadau troseddol terfynol yn yr Alban mewn achosion pan nad oes modd apelio ymhellach i Oruchaf Lys y DU). Wrth ystyried a ddylid ymestyn y pŵer i lysoedd a thribiwnlysoedd eraill, mae'r Llywodraeth hefyd wedi ystyried buddioldeb galluogi llysoedd a thribiwnlysoedd, ar wahân i Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban, i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, er mwyn i gyfraith yr UE a gedwir allu datblygu'n gyflymach.

Byddai ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd a thribiwnlysoedd ychwanegol yn rhoi mwy o gyfle i ddatblygu'r dehongliad o gyfraith achosion, er mwyn cydnabod bod statws y DU wedi newid. Os dim ond Goruchaf Lys y DU neu Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban fydd â'r pŵer hwn, mae risg y bydd yn cymryd mwy o

² Drwy'r ddogfen hon ar ei hyd, rydym wedi cyfeirio at "yr Uchel Lys Cyfiawnder", sy'n golygu "Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban".

amser i ystyried achosion ac y bydd y gyfraith yn dyddio ac yn hen ffasiwn, oherwydd bod capasiti'r llysoedd hyn yn fwy cyfyngedig. Codwyd y pwynt hwn gan rai seneddwr yn ystod dadleuon wrth i Ddeddfau 2018 a 2020 gael eu pasio.

I'r gwrthwyneb i hynny, mae risg y byddai ymestyn y pŵer i fwy o lysoedd a thribiwnlysoedd wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn arwain yn y pen draw at gynyddu nifer yr achosion a gyflwynir i Oruchaf Lys y DU. Fodd bynnag, rydym ni o'r farn ei bod yn debygol y byddai'n help mawr i Oruchaf Lys y DU yn y mwyafrif o achosion petai'r Llys Apêl neu Dŷ Mewnol Llys y Sesiwn wedi gwneud dyfarniad yn barod ar y mater dan sylw (ni waeth a yw tribiwnlys neu lys is wedi gwneud penderfyniad yn barod ai peidio). Er y byddai modd apelio ymhellach i Oruchaf Lys y DU, mae'r prawf i gael caniatâd i apelio i Oruchaf Lys y DU yn gyfyngol, ac felly gallai hynny leihau nifer yr achosion y bydd angen i Oruchaf Lys y DU benderfynu arnynt.

Mae ail risg gydag opsiwn 2, sef y bydd mwy o gynnydd yn nifer yr achosion i'r Llys Apêl neu i Dŷ Mewnol Llys y Sesiwn na gydag opsiwn 1. Mae'r prawf y mae'r Llys Apêl yn ei ddefnyddio wrth benderfynu a ddylid caniatáu apeliadau o'r Uchel Lys yn llai cyfyngol na'r prawf y mae Goruchaf Lys y DU yn ei ddefnyddio wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Llys Apêl. Rydym ni o'r farn y byddai'n help i'r Llys Apêl neu i Dŷ Mewnol Llys y Sesiwn, yn yr un modd â Goruchaf Lys y DU, petai dyfarniad wedi'i gwneud yn barod ar y mater ar lefel yr Uchel Lys a Thŷ Allanol Llys y Sesiwn, a bod modd delio â nifer yr achosion gyda'r capasiti presennol. Fodd bynnag, byddem yn falch o gael safbwyntiau'r ymgynghoreion ar yr asesiad hwn o'r effaith ar nifer yr achosion.

Mewn amgylchiadau cyfyng iawn, gall apeliadau o'r Uchel Lys neidio i Oruchaf Lys y DU. Mae'r bar yn uchel ar gyfer apeliadau naid, gan ei bod yn rhaid iddynt godi pwynt cyfreithiol sydd o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol. Oherwydd y bydd gan y Llys Apêl, yn ogystal â'r Uchel Lys, y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir o dan opsiwn 2, rydym ni o'r farn y bydd hyn yn lliniaru unrhyw gynnydd yn nifer yr apeliadau naid. Fodd bynnag, byddem yn falch o gael safbwyntiau'r ymgynghoreion ar yr asesiad hwn.

Eglurder a sicrwydd y gyfraith

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod angen eglurder a sicrwydd yn ein cyfraith ar ôl i ni ymadael â'r UE ac ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben. Dyna oedd un o nodau polisi cyffredinol y Llywodraeth drwy Ddeddfau 2018 a 2020. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn ei bod yn bwysig nad yw llysoedd a thribiwnlysoedd y DU yn rhwym wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir am gyfnod hirach nag sy'n briodol ac er budd y DU, a bod gan ymgyfreithwyr posib ddigon o allu i geisio newid cyfraith achosion yr UE a gedwir pan fydd yn cael effaith niweidiol arnynt.

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol bod llawer o bryderon wedi'u mynegi yn Senedd y DU ac mewn mannau eraill wrth i Ddeddf 2020 gael ei phasio, bod risg y byddai ymestyn y pŵer i nifer fawr o lysoedd a thribiwnlysoedd wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn creu llawer o ansicrwydd cyfreithiol. Cafodd hyn ei fynegi fel risg o greu anhrefn llwyr, lle byddai cymhelliad ariannol mawr i ail-ymgyfreitha meysydd a allai fod yn ddadleuol yng nghyfraith achosion yr UE a gedwir, e.e. mewn meysydd fel cwmpas Treth ar Werth (TAW), neu hawl i wyliau â thâl. Byddai ail-ymgyfreitha yn helaeth yn achosi ansicrwydd yn y gyfraith nes byddai Goruchaf Lys y DU yn dod i benderfyniad terfynol ar y mater, a dadleuir hefyd y bydd yn tansilio enw da'r DU fel lle deniadol i wneud busnes, a lleoliad poblogaidd i setlo anghydfodau.

Gallai'r gwahaniaethau ddigwydd yn gyflym iawn, neu'n araf iawn, gan ddibynnu ar sut byddai llysoedd a thribiwnlysoedd yn mynd ati i ail-ymgyfreitha. Petai pob llys a thribiwnlys yn gallu gwro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, gallai hynny greu ansicrwydd sylweddol. Byddai modd datrys yr ansicrwydd hwnnw yn y pen draw, wrth i benderfyniadau gael eu herio drwy apêl yn y llysoedd uwch, ond bydd yn cymryd llawer o amser i gyrraedd y sefyllfa honno o sicrwydd cyfreithiol.

Cysondeb wrth weithredu

Yn amodol ar ddarpariaethau Deddf 2018, bydd yn rhaid i holl lysoedd a thribiwnlysoedd y DU ddilyn cyfraith achosion yr UE a gedwir ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben, ar wahân i Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban. Mae Goruchaf Lys y DU yn gosod cynsail ar gyfer y tribiwnlysoedd a'r llysoedd is yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, Lloegr a'r Alban (ac eithrio pan fydd gan Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban awdurdodaeth). Mae Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban yn gosod cynsail ar gyfer y llysoedd is mewn materion troseddol yn yr Alban pan fydd yn eistedd fel llys apeliadol, gyda mainc o dri barnwr neu fwy fel arfer. Os bydd y llysoedd hynny³ yn penderfynu gwro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir mewn unrhyw achos penodol, mae'r penderfyniad hwnnw'n creu egwyddorion y mae tribiwnlysoedd a llysoedd is yn siŵr o'u dilyn mewn achosion perthnasol. Felly, mae hyn yn rhoi eglurder a sicrwydd yn y gyfraith ar draws yr awdurdodaethau ar wahân yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'n bwysig ymwahanu oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn dal yn hyblyg ac yn briodol i sefyllfa'r DU ar ôl iddi ymadael â'r UE. Fodd bynnag, po isaf yw lefel y llys neu'r tribiwnlys a bennir i gael y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, y mwyaf yw'r risg y bydd awdurdodaethau yn y DU yn defnyddio dulliau gweithredu gwahanol yn sgil mwy o ail-ymgyfreitha yn y tribiwnlysoedd a'r llysoedd is. Felly, gallai hyn olygu bod dyfarniadau'n cael eu cyflwyno gan lysoedd a thribiwnlysoedd eraill mewn ac ar draws gwahanol awdurdodaethau yn y DU, a allai fod yn wahanol i'w gilydd o ran eu hagwedd at y cwestiwn a ddylid gwro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, ac os felly sut dylid gwneud hynny. Eto, mae perygl y gallai hyn

³ Goruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban.

danseilio sicrwydd yn y gyfraith, a gallai annog partïon i siopa rhwng fforymau er mwyn cyflwyno achos yn yr awdurdodaeth maen nhw'n credu fydd yn arwain at y canlyniad mwyaf ffafriol. Er bod modd datrys gwahaniaeth o'r fath drwy apêl, i Oruchaf Lys y DU neu Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban yn y pen draw, bydd yn cymryd amser i fynd drwy'r system. Byddem yn falch o gael safbwyntiau'r ymgynghoreion ar yr effeithiau ar lysoedd a thribiwnlysoedd, yn enwedig yn achos cynnydd yn nifer yr achosion lle gallai dadleuon ddod i'r amlwg ar draws systemau cyfreithiol y DU am yr awdurdodaeth briodol.

Gwerth cynsail dyfarniadau

Er mwyn lleihau'r risg o ansicrwydd cyfreithiol, gan gynnwys y risg o wahaniaethau, mae gwerth cynsail dyfarniad llys neu dribiwnlys hefyd yn ystyriaeth bwysig yn y cyd-destun hwn. Os bydd y pŵer yn cael ei arfer mewn ffordd sy'n diogelu gwerth cynsail dyfarniadau gan lysoedd a thribiwnlysoedd perthnasol, byddai penderfyniad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd hynny i wyro ai peidio oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn gosod cynsail ar gyfer tribiwnlysoedd a llysoedd is, a fyddai'n helpu i liniaru'r risgiau uchod.

Mae gwerth cynsail dyfarniadau'r llysoedd⁴ a ystyriwyd gennym wedi cael ei nodi isod.

Llys Apêl Cymru a Lloegr a lefelau cyfatebol

Ar draws y DU, y llysoedd isod yw'r rhai sydd fwyaf cyfatebol i Lys Apêl Cymru a Lloegr:

- Llys Apêl y Llys Milwrol;
- Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn yr Alban;
- Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban pan fydd yn eistedd fel llys apêl mewn perthynas â mater yn ymwneud a chydawnsedd, neu fater yn ymwneud â datganoli; a
- Llys Apêl Gogledd Iwerddon.

Cymru a Lloegr

Bydd dyfarniadau Llys Apêl Cymru a Lloegr yn gosod cynsail ar gyfer tribiwnlysoedd a llysoedd is yng Nghymru a Lloegr, a byddant yn ddylanwadol mewn rhannau eraill o'r DU. Pan fydd gan wahanol awdurdodaethau yn y DU agwedd wahanol at benderfyniadau'r Llys Apêl, bydd modd i Oruchaf Lys y DU fynd ati'n gyflymach i ystyried y rhain, pan fydd hynny'n briodol.

⁴ Rydym wedi enwi llysoedd sydd wedi'u cynnwys ym mhob un o'r opsiynau y mae'r Llywodraeth yn ymgynghori arnynt, ond byddem yn falch o gael safbwyntiau'r ymgynghoreion ynghylch a ddylai unrhyw lysoedd a thribiwnlysoedd eraill gael eu cynnwys yn y naill opsiwn neu'r llall.

Mae Llys Apêl y Llys Milwrol⁵ yn cyflawni, yn fras, yr un swyddogaethau yn System Gyfiawnder y Lluoedd Arfog⁶ â Llys Apêl Cymru a Lloegr mewn apeliadau troseddol. Mae dyfarniadau'r llys hwn yn rhwymo'r llysoedd is, a bydd apeliadau o'r llys hwn yn mynd i Oruchaf Lys y DU.

Yr Alban

Achosion Sifil yn yr Alban

Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn

Mae Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn gwrando apeliadau gan Dŷ Allanol Llys y Sesiwn, yn ogystal ag amrywiaeth o apeliadau gan lysoedd is, yr Uwch Dribiwnlys a rhai cyrff proffesiynol, gan gynnwys Cymdeithas Cyfreithwyr yr Alban. Er mai llys apêl yw Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn bennaf, gall hefyd wrando deisebau penodol fel llys gwrandawriad cyntaf.

Mae Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn gallu bod yn rhwym wrth ei benderfyniadau cynharach ei hun os cyhoeddir penderfyniad gan fainc ac iddi fwy o aelodau. Os bydd penderfyniad cynharach gan Adran yn Nhŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn cael ei adolygu, caiff mainc fwy ei phennu i wneud hynny fel arfer.

Mae penderfyniadau Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn rhwymo barnwyr yn Nhŷ Allanol Llys y Sesiwn, a siryfion ynghyd â siryfion apêl yn Llys y Siryf a Llys Apêl y Siryf.

Achosion Troseddol yn yr Alban

Yr Uchel Lys Cyfiawnder fel llys apeliadol

Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban yw goruchaf lys troseddol yr Alban. Pan fydd yn eistedd fel llys apêl, mae'r Uchel Lys yn cynnwys dau farnwr fel arfer wrth wrando apêl yn erbyn dedfryd, ac o leiaf dri barnwr wrth wrando apêl yn erbyn euogfarn neu unrhyw apêl arall. Caiff mwy o farnwyr eistedd pan fydd y llys yn delio â materion cymhleth iawn, neu pan fydd materion cyfreithiol pwysig i'w hystyried. Gwrandewir apeliadau o'r Uchel Lys; o achosion difrifol (dwys) yn llys y siryf, ac achosion a gyfeiriwyd gan Gomisiwn Adolygu Achosion Troseddol yr Alban. Hefyd, gall yr Arglwydd Adfocad gyfeirio bwynt cyfreithiol sy'n codi yn ystod achos at yr Uchel Lys Cyfiawnder i gael Barn.

⁵ Mae Llys Apêl y Llys Milwrol yn gwrando apeliadau gan y Llys Milwrol, y llys sydd â'r awdurdodaeth i roi ar brawf unrhyw achos yn ymwneud â throsedd yn y lluoedd arfog; yn fras, troseddau yn erbyn disgyblaeth y lluoedd arfog, neu ymddygiad troseddol gan bersonél y lluoedd arfog yn y Llynges Frenhinol, y Fyddin a'r Awyrlu Brenhinol, neu ddinasyddion preifat sy'n rhwym wrth ddisgyblaeth y lluoedd arfog.

⁶ System Gyfiawnder y Lluoedd Arfog yw'r drefn a ddefnyddir i ddelio â throseddau yn erbyn disgyblaeth y lluoedd arfog/ymddygiad troseddol ar gyfer lluoedd arfog y DU; y Weinyddiaeth Amddiffyn sydd â chyfrifoldeb polisi dros y system.

Mae penderfyniadau Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban gyda mainc ac iddi fwy o aelodau yn cael eu trin fel penderfyniadau rhwymol. Bydd y llys hefyd yn ystyried ei fod wedi'i rwymo ei hun gan benderfyniad blaenorol gan fainc ac iddi'r un nifer o aelodau.

Mae penderfyniadau Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban yn gallu rhwymo siryfion mewn achosion troseddol.

Gogledd Iwerddon

Mae Llys Apêl Gogledd Iwerddon yn delio ag apeliadau mewn achosion sifil o'r Uchel Lys, ac apeliadau mewn achosion troseddol o Lys y Goron. Mae hefyd yn gwrando apeliadau ar bwyntiau cyfreithiol o'r llysoedd sirol a'r llysoedd ynadon. Bydd dyfarniadau Llys Apêl Gogledd Iwerddon yn rhwymo'r llysoedd is. Mae'r llysoedd yng Ngogledd Iwerddon yn parchu'n fawr y penderfyniadau a wneir gan Llys Apêl Cymru a Lloegr, yn enwedig pan fydd y gyfraith yr un fath, er nad yw'r penderfyniadau hyn yn rhai rhwymol yn dechnegol.

Uchel Lys Barn Cymru a Lloegr a lefelau cyfatebol

Yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, rydym ni o'r farn mai'r llysoedd isod yw'r rhai sydd fwyaf cyfatebol i Uchel Lys Cymru a Lloegr:

- Tŷ Allanol Llys y Sesiwn yn yr Alban;
- Llys Apêl y Siryf yn yr Alban;
- Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban sy'n eistedd fel y llys gwrandawriad cyntaf; ac
- Uchel Lys Gogledd Iwerddon.

Dim ond yn eu hawdurdodaethau perthnasol y mae gwerth cynsail i ddyfarniadau Uchel Lys Cymru a Lloegr a'r llysoedd cyfatebol yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, ac wedyn dim ond i raddau amrywiol.

Cymru a Lloegr

Yng Nghymru a Lloegr, bydd dyfarniadau'r Uchel Lys yn gosod cynsail ar gyfer llysoedd is, ond yn gwneud hynny mewn ffordd fwy cyfyngedig o lawer i driwlnlysoedd. Er enghraifft, bydd dyfarniadau'r Uchel Lys yn rhwymo'r triwlnlysoedd Haen Gyntaf mewn rhai achosion, ond ni fyddant yn rhwymo'r Uwch Driwlnlys.⁷

Wrth eistedd fel llys gwrandawriad cyntaf, gall dyfarniadau Uchel Lys Cymru a Lloegr fod yn berswadiol ond nid ydynt yn rhwymo mewn achosion eraill yn Uchel Lys Cymru a Lloegr. Pan fydd yr Uchel Lys yn eistedd fel y Llys Adrannol (hynny yw, yn gwrando apeliadau o Lys yr Ynadon, Llys y Goron neu'r Llys Sirol), bydd yn rhwym wrth ei benderfyniadau ei hun, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol pan fydd yn fodlon bod y penderfyniad cynharach wedi'i wneud *per incuriam* (drwy gamgymeriad y llys); er enghraifft, oherwydd nad oedd wedi ystyried awdurdod rhwymol. Felly, gallem weld

⁷ *Gilchrist v CThEM [2014] UKUT 169 (TCC).*

agweddau gwahanol at ddyfarniadau'r Uchel Lys, a fyddai ond yn gallu cael eu datrys drwy apêl i lys uwch maes o law.

Tribiwnlysoedd

Bydd yr Uwch Dribiwnlys yn rhwymo'r tribiwnlys Haen Gyntaf. Bydd y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth yn rhwymo'r Tribiwnlys Cyflogaeth. Gwrandewir apeliadau o'r Uwch Dribiwnlys a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth gan y Llys Apêl. Bydd yr awdurdodaeth ar draws y DU mewn tribiwnlysoedd materion wedi'u cadw yn ôl (*reserved tribunals*) yn sicrhau bod cynsail yn berthnasol yn y tribiwnlysoedd hynny ledled y DU.

Yr Alban

Achosion Sifil yn yr Alban

Tŷ Allanol Llys y Sesiwn

Mae Llys y Sesiwn yn eistedd yn Nhŷ'r Senedd, Caeredin, ac mae'r Arglwydd Lywydd, barnwr uchaf yr Alban, yn llywyddu drosto. Mae Tŷ Allanol Llys y Sesiwn yn llys gwrandawriad cyntaf. Gellir apelio i Dŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn erbyn penderfyniadau Tŷ Allanol Llys y Sesiwn.

Nid yw barnwr yn Nhŷ Allanol Llys y Sesiwn yn rhwym wrth benderfyniadau blaenorol barnwyr eraill yn Nhŷ Allanol Llys y Sesiwn. Yn aml iawn bydd penderfyniadau blaenorol o'r fath yn cael eu dilyn, a rhoddir rhesymau fel arfer os nad yw'r penderfyniad yn cael ei ddilyn. Er ei fod yn berswadiol iawn, nid yw penderfyniad barnwr yn Nhŷ Allanol Llys y Sesiwn yn rhwymo siryfion na Llys Apêl y Siryf.

Llys Apêl y Siryf

Gellir apelio i Llys Apêl y Siryf yn erbyn penderfyniad Siryf mewn achosion sifil. Gellir apelio i Dŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn erbyn penderfyniadau Llys Apêl y Siryf.

Mae penderfyniad Llys Apêl y Siryf ar ddehongli neu gymhwyso'r gyfraith yn rhwymo mewn achosion gerbron siryf unrhyw le yn yr Alban; mewn achosion gerbron ynad heddwch unrhyw le yn yr Alban; mewn achosion gerbron Llys Apêl y Siryf, ac eithrio mewn achos lle mae'r llys sy'n gwrando'r achos yn cynnwys mwy o Siryfion Apêl nag oedd yn y llys a wnaeth y penderfyniad.

Achosion Troseddol yn yr Alban

Llys Apêl y Siryf

Roedd Deddf Diwygio Llysoedd (Yr Alban) 2014 yn trosglwyddo holl bwerau ac awdurdodaeth Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban, i'r graddau yr oeddent yn berthnasol i apeliadau o lysoedd ag awdurdodaeth droseddol ddiannod, i Llys Apêl y Siryf. Mae apêl ar bwynt cyfreithiol yn erbyn unrhyw benderfyniad gan Llys Apêl y Siryf mewn achosion troseddol yn gallu mynd i Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban, ond dim ond gyda chaniatâd yr Uchel Lys Cyfiawnder. Er mwyn ystyried a phenderfynu ar apêl, bydd tri o farnwyr Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban yn creu cworwm y llys.

Mae natur rwymol penderfyniadau Llys Apêl y Siryf, fel y maent wedi'u nodi yn Adran 48(1) Deddf 2014 y cyfeirir ati uchod, yn berthnasol i faterion troseddol hefyd. Yn unol â hynny, mae penderfyniadau Llys Apêl y Siryf mewn materion troseddol yn rhwymo siryfion, ynadon heddwch neu'r Llys hwnnw ei hun (oni bai fod mainc ac iddi fwy o aelodau yn gwrando'r apêl).

Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban sy'n eistedd fel y llys gwrandawriad cyntaf

Yn ychwanegol at ei swyddogaeth apeliadol, mae Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban hefyd yn llys gwrandawriad cyntaf mewn perthynas â rhai troseddau difrifol. Mae un barnwr yn gwrando achosion gyda rheithgor o 15 o bobl. Nid yw penderfyniadau un barnwr yn rhwymo barnwyr eraill sy'n eistedd ar eu pen eu hunain, ond mae'n bosibl y byddant yn rhwymo siryf mewn rhai achosion.⁸

Tribiwnlysoedd

Mewn rhai tribiwnlysoedd yn yr Alban, mae pwnc yr achosion wedi'i gadw'n ôl ac yn cael ei glywed o fewn strwythur tribiwnlysoedd Cymru a Lloegr, er enghraifft Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant. Mae tribiwnlysoedd datganoledig yn yr Alban⁹ yn gweithredu drwy strwythur tebyg i'r un yng Nghymru a Lloegr, sef bod tribiwnlys Haen Gyntaf ar gyfer yr Alban ac Uwch Dribiwnlys ar gyfer yr Alban.¹⁰ Fel yng Nghymru a Lloegr, mae penderfyniadau'r Uwch Dribiwnlys yn rhwymo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Llys Mewnol y Sesiwn sy'n gwrando apeliadau o'r Uwch Dribiwnlys.

Gogledd Iwerddon

Mae'r Uchel Lys yng Ngogledd Iwerddon yn gwrando achosion teulu a sifil pwysig neu gymhleth, adolygiadau barnwrol ac apeliadau o lysoedd sirol. Mae hefyd yn cynnwys Llys Adrannol Gogledd Iwerddon sy'n gwrando adolygiadau barnwrol mewn achosion troseddol, ac yn aml – ond nid bob tro – bydd yn cynnwys barnwyr o Lys Apêl Gogledd Iwerddon neu gyfuniad o farnwyr o'r Uchel Lys a'r Llys Apêl. Mae'r Llys Adrannol hefyd yn gweithredu fel y llys apêl ar gyfer apeliadau o Lys y Goron mewn materion estraddodi. Mae apêl o'r Llys Adrannol yn yr achosion hyn yn mynd i Oruchaf Lys y DU, er enghraifft o dan Adran 32 Deddf Estraddodi 2003.

Mae cyswll yr Uchel Lys yn gweithio mewn ffordd debyg yng Ngogledd Iwerddon i'r ffordd mae'n gweithio yng Nghymru a Lloegr. Sefydliwr tribiwnlysoedd yng Ngogledd Iwerddon o dan amrywiol statudau, a gellir apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd drwy amryw o wahanol lwybrau. Felly, o ran a yw penderfyniadau'r Uchel Lys yn rhai rwymol, mae'n

⁸ Gweler *Jessop v Stevenson* 1987 SCCR 655.

⁹ Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014.

¹⁰ Mae rhai Tribiwnlysoedd yn yr Alban yn delio â materion datganoledig ac mae ganddynt strwythurau ac awdurdodaethau sy'n benodol i'r Alban (e.e. Tribiwnlys Iechyd Meddwl yr Alban), ac mae rhai Tribiwnlysoedd yn yr Alban yn delio â materion wedi'u cadw'n ôl ond mae ganddynt awdurdodaeth sy'n benodol i'r Alban (e.e. tribiwnlys sy'n delio â phensiynau rhyfel). Yn y ddau achos hyn, mae'r Tribiwnlys yn cael cefnogaeth gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban.

dibynnu ar y ddeddfwriaeth lywodraethu dan sylw. Pan fydd y pwnc yn un wedi'i eithrio, fel mewnfudo, bydd tribiwnlysoedd yn cael eu gwranddo o fewn strwythur y Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlysoedd sydd ar waith ar draws y DU.

Llysoedd sy'n is nag Uchel Lys Barn Cymru a Lloegr a lefelau cyfatebol

Ar draws awdurdodaethau'r DU, nid yw penderfyniadau gan lysoedd a thribiwnlysoedd ar y lefel hon yn rhwymo¹¹ llysoedd eraill.

Y prawf i'w ddefnyddio a'r ffactorau i'w hystyried mewn unrhyw benderfyniad gan lys neu dribiwnlys i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Mae'r prawf a'r ffactorau i'w hystyried gan unrhyw lys neu dribiwnlys a all wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, hefyd yn berthnasol i eglurder y gyfraith a dull gweithredu sicr. Mae gwahanol brofion yn berthnasol (i) ar draws y DU; a (ii) rhwng gwahanol lefelau yn y llys wrth benderfynu a ddylai wyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun, Gallai hyn arwain at ystyriaethau a dyfarniadau gwahanol. Gallent hefyd greu ansicrwydd ynghylch pa brawf y dylai'r llys apêl ei ddefnyddio wrth ystyried apêl ynghylch a oedd y penderfyniad i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn gywir ai peidio.

Byddai rhai o'r materion o ran y risg o ansicrwydd yn y gyfraith a'r risg o wahaniaethau, a hyd yn oed y rheini sy'n ymwneud â gwerth cynsail penderfyniadau, yn gallu cael eu lliniaru drwy roi disgrifiad o'r prawf i'w ddefnyddio a'r ffactorau i'w hystyried.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i ofalu nad yw unrhyw brawf yn cyfyngu ar ddisgresiwn barnwrol, a chymhlethdod ceisio codeiddio amrywiaeth gynhwysfawr o ffactorau a allai fod yn berthnasol mewn amrywiaeth eang iawn o achosion.

Yr effaith ar weinyddu cyfiawnder, a'r ffordd mae llysoedd a thribiwnlysoedd y DU yn gweithredu

Wrth ystyried y ffactorau uchod mewn perthynas â sicrwydd yn y gyfraith, mae'r Llywodraeth o'r farn bod risg y byddai ymestyn y pŵer i amrywiaeth eang o lysoedd a thribiwnlysoedd yn gallu arwain at ail-ymgyfreitha, ac effeithio ar nifer a chymhlethdod yr achosion sy'n cael eu hystyried. Mae perygl y gallai ansicrwydd yn y gyfraith wneud drwg i enw da'r DU fel lleoliad i setlo anghydfodau. Felly, nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod ymestyn y pŵer hwn i bob llys a thribiwnlys yn ffordd ymarferol o gyflawni'r nod o allu gwro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir pan nad yw o fudd i'r DU mwyach, gan gynnal sicrwydd cyfreithiol ar yr un pryd a chynnal enw da'r DU yn rhyngwladol fel fforwm deniadol i wneud busnes ac i setlo anghydfodau.

¹¹ Yn yr Alban, mae rhai penderfyniadau ar y lefel hon yn rhwymo, ac mae hyn yn cael ei drafod yn fanylach uchod.

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosib cynnal asesiad economaidd llawn oherwydd ei bod yn anodd asesu natur yr effeithiau, gan fod hynny'n dibynnu ar natur yr achosion a gyflwynir a sut bydd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn dyfarnu ar faterion o'r fath yn y dyfodol. Bydd penderfyniadau o'r fath yn dibynnu ar ffeithiau achosion unigol pan wneir y penderfyniad, ac nid yw'n bosib (nac yn briodol) darogan sut, ac ym mha amgylchiadau, y bydd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn dymuno arfer y pŵer hwn.

Awgrymwyd bod ail-ymgyfreitha yn fwy tebygol mewn rhai pynciau penodol (e.e. treth). Hyd yma, nid ydym wedi gallu cael tystiolaeth am unrhyw effeithiau posib ar fusnesau, sy'n fwy na thybiaeth gyffredinol na fyddent yn croesawu ansicrwydd cyfreithiol.

Oherwydd yr ansicrwydd hwn, nid oes asesiad o'r effaith wedi cael ei gynnal hyd yma. Fodd bynnag, bydd ymatebion yr ymgylgoreion yn help i gasglu gwybodaeth am unrhyw effaith ar fusnesau, ar weinyddu cyfiawnder, ar weddill y sector cyhoeddus ac ar gymdeithas yn ehangach. Yn sgil hynny, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gallu cael golwg fanylach ar yr asesiad o'r effeithiau, a chraffu yn ôl yr angen yn ystod y cam ar ôl ymgynghori, fel y bo'n briodol.

Effeithiau ar Gydraddoldeb

Rydym yn ystyried effeithiau unrhyw newid ar y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol o gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef:

- Oedran;
- Anabledd;
- Ailbennu rhywedd;
- Priodas a phartneriaeth sifil;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd neu gred;
- Rhyw; a
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Byddem yn falch o gael safbwyntiau'r ymgylgoreion ynghylch sut bydd y newidiadau a gynigir yn effeithio ar gydraddoldeb.

Ein safbwyntiau rhagarweiniol

A ddylid ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir

Mae angen cael cydbwysedd rhwng y nod polisi o wyro'n amserol oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, pan fydd yn briodol, a'r effeithiau negyddol wrth i hynny arwain at ail-ymgyfreitha, ac felly at fwy o achosion, gan greu ansicrwydd cyfreithiol a lleihau hyder yn y DU fel fforwm i setlo anghydfodau cyfreithiol.

At ei gilydd, ar ôl ystyried y ffactorau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adrannau uchod, mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn fuddiol ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd a thribiwnlysoedd ychwanegol, fel y gellir gwro oddi wrth gyfraith achosion yr UE er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod ein hamgylchiadau wedi newid yn sgil ymadael â'r UE. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r risgiau sylweddol o greu ansicrwydd cyfreithiol, ac y byddai llawer mwy o ail-ymgyfreitha, petai'r pŵer i wyro yn cael ei ymestyn i nifer fawr o lysoedd. Rydym hefyd wedi rhoi sylw i'r ystyriaethau o ran y risg o wahaniaethau ar draws y DU. Felly, rydym yn cynnig y dylai'r gallu i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir gael ei gynyddu i lysoedd uwch.

Pa lysoedd neu dribiwnlysoedd ddylai gael y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir

Rydym wedi dod i'r casgliad bod dau brif opsiwn y gellid dadlau a fyddai'n sicrhau cydbwysedd, rhwng y buddion o gynyddu nifer y llysoedd a'r tribiwnlysoedd sydd â'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, a lleihau'r risgiau o ran eglurder a sicrwydd cyfreithiol. Dyma'r ddau opsiwn y mae'r Llywodraeth yn ymgynghori yn eu cylch yn awr.

Opsiwn 1 - ymestyn y gallu i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE i Lys Apêl Cymru a Lloegr, a'r llysoedd cyfatebol yn awdurdodaethau eraill y DU, sef:

- i. Llys Apêl Cymru a Lloegr;
- ii. Llys Apêl y Llys Milwrol;
- iii. Llys Apêl Gogledd Iwerddon;
- iv. Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban pan fydd yn eistedd fel llys apêl mewn perthynas â mater yn ymwneud a chydawnsedd, neu fater yn ymwneud â datganoli; a

v. Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn yr Alban.

Opsiwn 2 - yn ogystal â'r Llys Apêl a'r llysoedd cyfatebol, ymestyn y gallu i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE i Uchel Lys Barn Cymru a Lloegr, a'r llysoedd sydd fwyaf cyfatebol iddo yn awdurdodaethau eraill y DU. Yn ychwanegol at y llysoedd yn opsiwn 1, byddai hyn yn cynnwys:

i. Uchel Lys Cymru a Lloegr;

ii. Tŷ Allanol Llys y Sesiwn yn yr Alban;

iii. Llys Apêl y Siryf yn yr Alban;

iv. Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban sy'n eistedd fel y llys gwrandawriad cyntaf; ac

v. Yr Uchel Lys yng Ngogledd Iwerddon.

Wrth benderfynu ar ba lefel llys y dylid gosod y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, mae'n bosib y byddai llysoedd a thribiwnlysoedd eraill yn gallu cael eu hystyried yn rhai cyfatebol ar gyfer y llysoedd sydd wedi'u rhestru uchod. Gydag opsiwn 1, mae'r Llys Apêl - a'r llysoedd sydd fwyaf cyfatebol iddo - yn delio ag apeliadau o'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd, gydag unrhyw apêl bellach yn mynd i Oruchaf Lys y DU.

Mae'r ddau opsiwn yn codi cwestiynau ynghylch a ddylai llysoedd a thribiwnlysoedd eraill gael eu cynnwys yn y cynigion hyn. Er enghraifft, mewn rhai achosion, gall apeliadau o'r Uchel Lys neidio o'r Uchel Lys i Oruchaf Lys y DU. Yn yr un modd, yn y strwythur tribiwnlysoedd mae apeliadau o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn cael eu clywed gan yr Uwch Dribiwnlys a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth yn y drefn honno, cyn i'r Llys Apêl wneud unrhyw benderfyniad. Ar ochr y llysoedd, os bydd penderfyniadau gan Lys y Goron sy'n delio ag achosion ditiad yn cael eu herio, Llys yr Apêl fydd yn gwrandao ar yr her, nid yr Uchel Lys. Mae gan y Llys Milwrol weithdrefnau a phwerau tebyg i Lys y Goron. Bydd apeliadau'n mynd i Lys Apêl y Llys Milwrol; fel mae apeliadau o Lys y Goron yn mynd (fel arfer) i'r Llys Apêl.

Mae'r cwestiwn a ddylai llysoedd a thribiwnlysoedd ychwanegol ar draws y DU - ac eraill o bosib sydd heb gael eu henwi uchod - gael eu cynnwys yn y naill opsiwn neu'r llall, yn enwedig opsiwn 2, ac a ddylent gael y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir a fyddai'n rhwymo llysoedd a thribiwnlysoedd is, yn fater dadleuol. Byddem yn falch o gael safbwyntiau'r ymgynghoreion ynghylch pa lysoedd neu dribiwnlysoedd ddylai gael eu cynnwys yn y naill opsiwn neu'r llall.

Gydag opsiwn 2, mae'n bosib y byddai modd gwrandao ar fwy o achosion o'r math yma, a hynny'n gyflymach. Mae gan hyn y fantais o alluogi mwy o bobl i ddadlau i herio cyfraith achosion yr UE a gedwir sy'n cael effaith negyddol arnynt, gan ein bod wedi gadael yr UE erbyn hyn. Rydym yn awyddus i gael safbwyntiau ynghylch a yw hyn yn cael ei wrthbwysio

ai peidio gan y ffaith y bydd mwy o risg o wahaniaethau rhwng achosion o fewn ac ar draws awdurdodaethau'r DU, ac felly ansicrwydd yn y gyfraith. Gallai hyn ddeilio'n rhannol o ganlyniad i'r graddau mwy cyfyngedig y mae'r haen hon o lys yn gosod cynsail i'w hunain (er bod yr Uchel Lys fel rheol yn dilyn penderfyniad Uchel Lys arall), a bod y llysoedd a'r tribiwnlysoedd oddi tanynt a'r dylanwad ar lysoedd a thribiwnlysoedd eraill yn yr un haen ac ar draws awdurdodaethau. Felly, mae'n bosib y bydd yn cymryd mwy o amser i unrhyw gyfraith achosion newydd gael ei setlo o dan yr opsiwn hwn. Er nad yw opsiwn 1 yn cael gwared yn llwyr ar y risg o wahaniaethau, mae'n golygu y bydd unrhyw amrywiadau'n cael eu datrys yn gyflymach, drwy apêl uniongyrchol i Oruchaf Lys y DU.

Byddem yn falch o gael safbwyntiau'r ymgynghoreion ynghylch pa opsiwn fyddai'n sicrhau cydbwysedd yn ymarferol rhwng gallu gwro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, a chynnal sicrwydd cyfreithiol yn y gyfraith ar draws y DU ar yr un pryd.

Yr amgylchiadau neu'r graddau na fydd llys neu dribiwnlys perthnasol yn rhwym wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir

Ar ôl 31 Rhagfyr 2020, bydd gan gyfraith achosion yr UE a gedwir yr un statws rhwymol, neu gynsail, mewn llysoedd a thribiwnlysoedd domestig â phenderfyniadau cyfredol Goruchaf Lys y DU a'r Uchel Lys Cyfiawnder mewn perthynas ag unrhyw gwestiwn ynglŷn â dilysrwydd, ystyr neu effaith unrhyw gyfraith yr UE a gedwir. Efallai y bydd llysoedd a thribiwnlysoedd y DU hefyd yn ystyried penderfyniadau'r Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd a gymerir ar ôl i'r DU adael yr UE, lle maent yn berthnasol i unrhyw fater y mae'r llys neu'r tribiwnlys yn ei ystyried.

Yn wahanol i lysoedd a thribiwnlysoedd eraill, nid yw Goruchaf Lys y DU na'r Uchel Lys Cyfiawnder (lle nad oes llwybr apelio pellach i Oruchaf Lys y DU) yn rhwym wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir ar ôl 31 Rhagfyr 2020.

O gofio pŵer Goruchaf Lys y DU wth osod cynsail, ystyrir y dylai llysoedd a thribiwnlysoedd sydd â'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn opsiwn 1, fod yn rhwym wrth benderfyniadau Goruchaf Lys y DU lle ystyriwyd y cwestiwn a ddylid gwro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir. Yn achos opsiwn 2, ystyriwyd hefyd y dylai'r Uchel Lys a'r hyn sy'n gyfwerth ag ef ar draws y DU, fod yn rhwym wrth benderfyniadau'r Llys Apêl, gan gynnwys yr hyn sy'n gyfwerth ag ef ar draws y DU, neu'r Uchel Lys Cyfiawnder, fel y byddent fel arfer.

Ar hyn o bryd, mae cyfreitheg Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn rhan o system gyfreithiol y DU drwy ddwy sianel:

- i. ei fod yn uniongyrchol berthnasol, a
- ii. fe'i cymhwysir drwy benderfyniadau llysoedd y DU, naill ai oherwydd

Cyfraith achosion yr UE a gedwir

Ymgynghoriad ar alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir

- a. eu bod wedi cyfeirio at Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ar bwynt cyfreithiol a bod hynny wedi bod yn rhan o ddyfarniad y llys domestig yn y pen draw;
- b. maent wedi defnyddio dyfarniad blaenorol o Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

Fel y nodir uchod, o ddiwedd y Cyfnod Pontio, mae cyfraith yr UE a gedwir, cyn belled nad yw'r gyfraith honno wedi'i haddasu ar ddiwedd y Cyfnod Pontio neu ar ôl hynny, ac i'r graddau y mae'n berthnasol iddo, i'w ddehongli yn unol â chyfraith achosion a gedwir, sy'n cynnwys cyfraith achosion yr UE a gedwir a chyfraith achosion domestig a gedwir ¹².

Byddai penderfyniadau Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, cyn belled â'u bod yn rhan o gyfraith y DU drwy sianel (i) uchod cyn diwedd y Cyfnod Pontio, yn gyfraith achosion yr UE a gedwir a, chyn belled â'u bod yn rhan o gyfraith y DU, drwy sianel (ii) uchod, byddai'n gyfraith achosion domestig a gedwir.

Rydym yn ystyried i ba raddau y dylid caniatáu i'r llysoedd neu'r tribiwnlysoedd perthnasol wyro oddi wrth gyfraith achosion domestig a gedwir sy'n ymwneud â chyfraith achosion yr UE a gedwir mewn amgylchiadau lle na fyddent yn gallu gwneud hynny fel arall (fel y caniateir gan 6(5B)(b) a (c) Deddf 2018). Gallai cyfraith achosion domestig a gedwir sy'n ymwneud â chyfraith achosion yr UE a gedwir fod, er enghraifft, yn ddyfarniad domestig a roddwyd cyn diwedd y Cyfnod Pontio gan gymhwyso dyfarniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

Bydden yn croesawu eich safbwyntiau ynghylch a ddylid caniatáu i lysoedd neu dribiwnlysoedd perthnasol, o dan y naill opsiwn neu'r llall, wyro oddi wrth ddyfarniadau o'r fath oddi wrth lysoedd sy'n uwch na hwy, ac o dan ba amgylchiadau.

A ddylid cynnwys prawf

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o bwysigrwydd eglurder mewn unrhyw ddeddfwriaeth y gall ei chyflwyno, ac yn benodol, mewn perthynas â'r prawf i'w gymhwyso gan y llysoedd a'r tribiwnlysoedd wrth ystyried a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Ein man cychwyn yw ei fod yn ddymunol, cyn belled ag y bo modd, i'r un prawf gael ei gymhwyso gan y llysoedd a'r tribiwnlysoedd perthnasol y rhoddir y pŵer hwn iddynt, er mwyn rhoi eglurder i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ynglŷn â'r prawf y dylid ei gymhwyso, ac i hyrwyddo cyn belled ag y bo modd, cysondeb o ran y ffordd o weithredu a sicrwydd cyfreithiol ar draws gwahanol awdurdodaethau'r DU.

Yn ogystal, os na ddarperir prawf, byddai hyn yn creu ansicrwydd o ran pa brawf dylid ei ddefnyddio gan:

¹² Yn amodol ar rai eithriadau o dan Adran 5 ac Atodlen 1 o Ddeddf 2018.

- a) y llysoedd a'r tribiwnlysoedd wrth ystyried a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir; a
- b) yn opsiwn 1, gan Oruchaf Lys y DU neu opsiwn 2 gan y Llys Apêl, gan gynnwys yr hyn sy'n gyfwerth ag ef ar draws y DU a Goruchaf Lys y DU a'r Uchel Lys Cyfiawnder wrth ystyried apêl ynghylch a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE gedwir;

Cymhwyso'r prawf

Mae'n ofynnol i Oruchaf Lys y DU a'r Uchel Lys Cyfiawnder o dan a6(5) Deddf 2018 gymhwyso'r "*un prawf ag y byddent yn ei gymhwyso wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth [eu] cyfraith achosion eu hunain*" wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Mae prawf Goruchaf Lys y DU wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun yn cael ei nodi yn Natganiad Ymarfer Tŷ'r Arglwyddi ar 26 Gorffennaf 1966¹³, sef "*a yw'n ymddangos yn iawn gwneud hynny*". Mae ystod o ystyriaethau perthnasol a ddatblygwyd mewn corff sylweddol o gyfraith achosion. Mae'r pŵer yn ddewisol a bydd yn sbarduno ffeithiau pob achos unigol. Nid oes cyfreitheg wedi'i setlo yn berthnasol i union amgylchiadau pryd fydd Goruchaf Lys y DU yn ymarfer y pŵer hwn. Yn wir, mae dicta wedi annog peidio â defnyddio fformiwla haearnidd, serch hynny, caiff ei dderbyn yn gyffredinol mai dim ond yn achlysurol iawn y bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio. Mae enghreifftiau o bryd y cafodd ei ddefnyddio yn cynnwys penderfyniad blaenorol sydd ddim yn adlewyrchu polisi cyhoeddus modern¹⁴ neu lle mae penderfyniad blaenorol yn achosi ansicrwydd.¹⁵

Mae'r sefyllfa yn debyg mewn perthynas â'r Uchel Lys Cyfiawnder o ran penderfynu a ddylid gwyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun. Gall wneud hynny pan fydd buddiannau cyfiawnder yn mynnu hynny. Ystyrir bod penderfyniadau a wneir gan feinciau mwy, yn arbennig lle mae achos wedi'i ystyried gan y llys cyfan, o awdurdod uwch. Yr arfer yw cynnull llys mwy pan fydd pwynt o bwysigrwydd neu anhawster i'w benderfynu, ac mae'r cwestiwn a all llys dilynol wyrdroi penderfyniad llys cyfan yn parhau ar agor. Nid oes prawf penodol y mae'n rhaid ei fodloni i wyrdroi penderfyniad cynharach, ond gellir ailystyried achosion cynharach lle ceir amheuan a yw'r egwyddorion cyfreithiol y dibynnwyd arnynt yn

¹³ [1966] 1 WLR 1234. Cadarnhawyd bod hyn yn gymwys i'r Goruchaf Lys mewn cyfraith achosion ddilynol (Austin v Mayor a Burgess o Fwrdeistref Southwark [2010] UKSC 28) ac i gyfeiriad ymarfer cyfredol UKSC (<https://www.supremecourt.uk/docs/practice-direction-03.pdf>).

¹⁴ Gweler Miliangos v George Frank (Textiles) Limited [1976] A.C. 443, er gweler Hall v Simon, [2002] 1 A.C. 615, sy'n awgrymu na fyddai newidiadau yng nghanfyddiad y cyhoedd yn unig yn ddigonol i warantu gwyrriad, a bod yn rhaid cael newidiadau sylweddol eraill o ran amgylchiadau.

¹⁵ Gweler Murphy v Brentwood [1991] 1 A.C. 398.

parhau i fod yn gadarn, neu a yw'r llys o'r farn y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir mewn achos cynharach.

Rydym wedi edrych ar brofion cyfredol a ddefnyddir ar draws awdurdodaethau'r DU ar lefel Llys Apêl ac Uchel Lys a'r hyn sy'n gyfwerth iddynt wrth benderfynu gwyro oddi wrth eu cyfraith achosion eu hunain. Mae gan bob llys apêl ym mhob awdurdodaeth ddull gwahanol.

Yng Nghymru a Lloegr, dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn y gall Llys Apêl wyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun: (i) lle mae penderfyniadau dau Llys Apêl yn gwrthdaro, (ii) os yw'r penderfyniad, er nad yw wedi'i ddiystyru'n benodol, yn gwrthdaro â phenderfyniad Goruchaf Lys y DU; a (iii) os rhodddwyd *per incuriam* i'r penderfyniad cynharach (er enghraifft, pan na ddaeth statud neu reol sy'n cael effaith statudol at sylw'r llys cynharach, a fyddai wedi effeithio ar y penderfyniad¹⁶. Mae hyn yn fwy cyfyngol na'r prawf a gymhwysir gan y Oruchaf Lys y DU wrth benderfynu a dylid gwyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun.

Bydd y llys hefyd yn ystyried ei fod wedi'i rwymo ei hun gan benderfyniad blaenorol gan fainc ac iddi'r un nifer o aelodau. Yn yr Alban, mae penderfyniadau'r Uchel Lys Cyfiawnder gyda mainc â mwy o aelodau iddi yn cael eu trin yn rhwymol.

Mae Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn gallu bod yn rhwym wrth ei benderfyniadau cynharach ei hun os cyhoeddir penderfyniad gan fainc ac iddi fwy o aelodau. Os bydd penderfyniad cynharach gan Adran yn Nhŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn cael ei adolygu, caiff mainc fwy ei phennu i wneud hynny fel arfer. Mae penderfyniadau Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn rhwymol i farnwyr yn Nhŷ Allanol Llys y Sesiwn. Mae penderfyniadau Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn hefyd yn rhwymol ar siryfion a Siryfion Apêl yn Llys Apêl y Siryfion.

Yng Ngogledd Iwerddon, ceir sefyllfa debyg fel sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr. Hyd yn oed os yw penderfyniad y Llys Apêl wedi camddehongli penderfyniad blaenorol Goruchaf Lys y DU, rhaid i'r Llys Apêl ddilyn ei benderfyniad blaenorol a gadael i Oruchaf Lys y DU gywiro'r camgymeriad.¹⁷

Mae'r darlun ar lefel Uchel Lys hyd yn oed yn fwy cymhleth.

Yng Nghymru a Lloegr, nid yw'r Uchel Lys, wrth wrando ar weithredoedd yn y man cyntaf, yn rhwym drwy benderfyniadau gwrandawiaidau cyntaf, er y gall y dyfarniadau hyn fod yn ddarbwyllol. Wrth weithredu fel Llys Adrannol (gwrando ar apêl), gall yr Uchel Lys wyro oddi wrth benderfyniadau blaenorol yr Uchel Lys pan fydd o'r farn bod y penderfyniad cynharach wedi'i wneud drwy gamgymeriad gan y llys (*per incuriam*).

¹⁶ *Young v Bristol Aeroplane Co Ltd [1944] K.B 716.*

¹⁷ *Gweler Breslin & others v McKenna & others (dyfarniad rhif 9) [tystiolaeth achlust] [2008] NIQB.*

Mae ystyriaethau tebyg yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon, ond mae ystyriaethau gwahanol yn gymwys yn yr Alban wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun fel y nodir uchod.

Goruchaf Lys y DU yw'r llwybr apelio olaf ar gyfer pob un o'r llysoedd ychwanegol y gellid ehangu'r pŵer iddynt i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Yng ngoleuni ei amcan i gael prawf unigol i ddarparu eglurder a hyrwyddo cysondeb o ran dull, mae'r Llywodraeth o'r farn na ddylai'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ychwanegol sy'n gallu gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir ddibynnu ar eu prawf eu hunain o ran gwyro oddi wrth eu cyfraith achosion eu hunain.

O ystyried ein hamcan datganedig i sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu cyn belled ag y bo modd, rydym felly wedi edrych at y prawf a nodwyd eisoes yn Neddf 2018 i'w ddefnyddio gan Oruchaf Lys y DU wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun a ddisgrifiwyd uchod. Gall nodi prawf heblaw'r un y mae Goruchaf Lys y DU yn ei ddefnyddio, (er enghraifft, pob llys neu dribiwnlys yn cymhwyso eu prawf eu hunain), fod mewn perygl o greu ansicrwydd ynglŷn â pha brawf y dylid ei gymhwyso wrth ystyried apêl ynghylch penderfyniad i wyro oddi wrthi gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Felly, rydym yn ystyried y byddai ehangu'r prawf a gymhwysir gan Oruchaf Lys y DU wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd perthnasol yn cyflawni ein nod o hyrwyddo cysondeb o ran y ffordd o weithredu a lleihau'r risg o wyro ar draws gwahanol awdurdodaethau'r DU.

Rydym wedi ystyried a ddylem geisio codeiddio'r prawf hwn yn llawn ar wyneb unrhyw reoliadau, ond ein barn gychwynnol yw y byddai hyn yn ddiangen ac yn creu risg o roi rhywfaint o anhyblygrwydd diangen wrth gymhwyso'r prawf hwnnw, sydd ynddo'i hun wedi esblygu dros amser. Yn ein barn ni, gellir deall y prawf hwn yn hawdd a'i gymhwyso ar draws yr awdurdodaethau drwy gyfeirio at y gyfraith achosion perthnasol.

Y farn sy'n cael ei ffafrio gan y Llywodraeth yw y byddai unrhyw reoliadau yn nodi mai'r prawf sydd i'w gymhwyso gan unrhyw lys neu dribiwnlys ychwanegol yw'r prawf a gymhwysir gan Oruchaf Lys y DU wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrthi ei gyfraith achosion ei hun. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd yr Uchel Lys Cyfiawnder, sef llys apêl troseddol olaf mewn amgylchiadau lle nad oes llwybr apelio i Oruchaf Lys y DU, yn parhau i gymhwyso ei brawf ei hun.¹⁸ Rydym yn croesawu barn ymgynghoreion ar y prawf i'w gymhwyso gan lysoedd islaw'r Uchel Lys Cyfiawnder i'r rheini y mae'r llys apêl olaf.

¹⁸ Fel y nodir uchod, mae penderfyniadau'r Uchel Lys Cyfiawnder gyda fainc â mwy o aelodau iddi fel arfer yn cael eu trin yn rhwymol, a bydd y llys yn ystyried ei fod wedi'i rwymo ei hun gan benderfyniad blaenorol gan fainc ac iddi'r un nifer o aelodau.

Yr ystyriaethau a fydd yn berthnasol i lysoedd a thribiwnlysoedd wrth wyro oddi wrth gyfraith achosion y DU a gedwir

Rydym wedi ystyried a fyddem yn dymuno nodi ar wyneb rheoliadau unrhyw ystyriaethau sy'n berthnasol i'r llysoedd a'r thribiwnlysoedd wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Nid ydym yn bwriadu nodi unrhyw ystyriaethau o'r fath i'w hystyried gan Oruchaf Lys y DU, yr Uchel Lys Cyfiawnder neu'r llysoedd a'r thribiwnlysoedd ychwanegol perthnasol yng ngoleuni ein hargymhelliad mai'r prawf y dylid ei gymhwyso yw'r un a ddefnyddir gan Oruchaf Lys y DU wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun. Yn ein barn ni, mae'r prawf hwn wedi'i ategu gan lu o achosion cyfreithiol sydd wedi'u setlo sy'n cydnabod natur cyfnewidiol ffactorau a allai fod yn berthnasol mewn unrhyw achos penodol, a natur newidiol ystyriaethau polisi cyhoeddus dros amser. Ein barn ni, felly, yw na fyddai'n ddefnyddiol ceisio cynhyrchu rhestr gynhwysfawr o ystyriaethau perthnasol ar wyneb y rheoliadau: serch hynny, rydym yn croesawu barn ymgynghoreion am y ffordd hwn o weithio.

Casgliad

I grynhoi, mae'r Llywodraeth yn argymhell gwneud rheoliadau yn unol ag Adran 6 (5A) Deddf 2018 a fydd yn ehangu'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, i lysoedd a thribiwnlysoedd ychwanegol. Wrth wneud y rheoliadau hyn, bwriad y Llywodraeth yw rhoi hyblygrwydd i'r llysoedd a'r thribiwnlysoedd wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, mewn ffordd amserol ar ôl i ni adael yr UE, tra'n cydbwyso ar yr un pryd yr angen i gynnal sicrwydd ac eglurder cyfreithiol ar draws y DU. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod dau opsiwn sy'n bodloni'r amcanion hyn ac mae'r Llywodraeth yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd:

Opsiwn 1: Ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i'r canlynol:

- i. Llys Apêl Cymru a Lloegr;
- ii. Llys Apêl y Llys Milwrol;
- iii. Llys Apêl Gogledd Iwerddon;
- iv. Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban pan fydd yn eistedd fel llys apêl mewn perthynas â mater yn ymwneud a chydawnsedd, neu fater yn ymwneud â datganoli; a
- v. Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn yr Alban.

Opsiwn 2: Ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i'r canlynol:

Cyfraith achosion yr UE a gedwir

Ymgynghoriad ar alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd yn y DU i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir

- i. Llys Apêl Cymru a Lloegr;
- ii. Llys Apêl y Llys Milwrol;
- iii. Llys Apêl Gogledd Iwerddon;
- iv. Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban pan fydd yn eistedd fel llys apêl mewn perthynas â mater yn ymwneud a chydawnsedd, neu fater yn ymwneud â datganoli;
- v. Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn yr Alban;
- vi. Uchel Lys Cymru a Lloegr;
- vii. Tŷ Allanol Llys y Sesiwn yn yr Alban;
- viii. Llys Apêl y Siryf yn yr Alban;
- ix. Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban sy'n eistedd fel y llys gwrandawriad cyntaf; ac
- x. Yr Uchel Lys yng Ngogledd Iwerddon.

Rydym yn croesawu eich safbwyntiau ynghylch a ddylid bod unrhyw lysoedd neu dribiwnlysoedd eraill o fewn cwrpas y naill o'r ddau opsiwn hyn.

Wrth arfer y pŵer i alluogi llysoedd a thribiwnlysoedd ychwanegol i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, y dull a ffafriwn yw na fydd y llysoedd hyn yn rhwym i'r graddau nad yw cyfraith achos yr UE a gedwir yn cael ei haddasu gan Oruchaf Lys y DU. Rydym yn croesawu eich safbwyntiau ar i ba raddau y dylai'r llysoedd hyn fod yn rhwym wrth gyfraith achosion domestig a gedwir sy'n berthnasol i gyfraith achosion yr UE a gedwir.

Wrth ehangu'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i'r llysoedd ychwanegol hyn, rydym yn argymhell y dylai'r llysoedd hyn gymhwyso'r un prawf ag sy'n gymwys i Oruchaf Lys y DU wrth benderfynu a ddylid gwro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun. Nid ydym yn bwriadu nodi rhestr o ystyriaethau y dylai'r holl lysoedd a'r tribiwnlysoedd sydd â'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o'r fath. Unwaith eto, rydym yn croesawu eich sylwadau ar y dull sy'n cael ei ffafrio gan y Llywodraeth.

Credwn fod y ffordd hwn o weithio yn cyflawni amcanion polisi'r Llywodraeth o annog gwro oddi wrth gyfraith achosion yr UE mewn ffordd amserol, lle bo'n briodol, tra ar yr un pryd, yn lliniaru risg yr effaith andwyol ar weithrediad gweinyddiaeth cyfiawnder ac ansicrwydd cyfreithiol. Rydym yn credu y bydd yr opsiynau hyn yn cynnal enw da y DU yn rhyngwladol fel fforwm i ddatrys anghydfodau.

Rydym yn croesawu barn ymgynghoreion ar effeithiau ymarferol, gweithredol a chydaddoldeb y ddau opsiwn i alluogi i benderfyniad gwybodus gael ei wneud ar ddiwedd yr ymgynghoriad.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cyflwynwch eich ymatebion dros e-bost at sylw Joanne Thambyrajah:
Judicial_Policy_Correspondence@Justice.gov.uk

- C1:** Ydych chi o'r farn y dylai'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir gael ei ymestyn i dribiwnlysoedd a llysoedd eraill ar wahân i Oruchaf Lys y DU ac Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban? Rhowch resymau dros eich ateb.
- C2:** Yn eich barn chi, sut byddai'r pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn effeithio ar bob un o'r opsiynau isod? Rhowch resymau dros eich ateb.
- Y Llys Apêl a'r llysoedd ar lefelau cyfatebol;
 - Yr Uchel Lys, a'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar lefelau cyfatebol;
 - Pob llys a thribiwnlys.
- C3:** Yn eich barn chi, pa opsiwn sy'n sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng gallu gwyro'n amserol oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, a chynnal sicrwydd cyfreithiol ar draws y DU? Rhowch resymau dros eich ateb.
- C4:** Os bydd y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn cael ei ymestyn i'r Llys Apêl a'i lysoedd cyfatebol, ydych chi'n cytuno bod y rhestr isod yn cynnwys yr holl lysoedd perthnasol?
- Llys Apêl Cymru a Lloegr;
 - Llys Apêl y Llys Milwrol;
 - Llys Apêl Gogledd Iwerddon;
 - Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban pan fydd yn eistedd fel llys apêl mewn perthynas â mater yn ymwneud a chydawnsedd, neu fater yn ymwneud â datganoli; a
 - Tŷ Mewnol Llys y Sesiwn yn yr Alban.
- Rhowch resymau dros eich ateb.
- C5:** Os bydd y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir yn cael ei ymestyn i'r Uchel Lys a'i lysoedd cyfatebol, ydych chi'n cytuno bod y rhestr isod o lysoedd yn cynnwys yr holl lysoedd perthnasol?
- Uchel Lys Cymru a Lloegr;
 - Tŷ Allanol Llys y Sesiwn yn yr Alban;
 - Llys Apêl y Siryf yn yr Alban;
 - Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban sy'n eistedd fel y llys gwrandawriad cyntaf; ac
 - Yr Uchel Lys yng Ngogledd Iwerddon.

Rhowch resymau dros eich ateb.

- C6:** O ran y naill opsiwn neu'r llall, a ddylid ymestyn y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir i lysoedd neu dribiwnlysoedd eraill? Os dylid, ym mha amgylchiadau y dylai hynny ddigwydd? Rhowch resymau dros eich ateb.
- C7:** Ydych chi o'r farn y dylai'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd sy'n cael y pŵer i wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir, gael caniatâd i wyro oddi wrth gyfraith achosion ddomestig a gedwir sy'n ymwneud â chyfraith achosion yr UE a gedwir? Os ydych, ym mha amgylchiadau y dylai hynny ddigwydd? Rhowch resymau dros eich ateb.
- C8:** Ydych chi'n cytuno y dylai'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd perthnasol sydd wedi cael y pŵer, fod yn rhwym wrth benderfyniadau Goruchaf Lys y DU, Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban a'r Llys Apêl a'i lysoedd cyfatebol ar draws y DU, pan fydd eisoes wedi ystyried y cwestiwn a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben, yn ôl trefn arferol cynsail? Rhowch resymau dros eich ateb.
- C9:** Ydych chi'n cytuno:
- mai'r prawf y dylai llysoedd neu dribiwnlysoedd ychwanegol ei ddefnyddio, yw'r prawf y dylai Goruchaf Lys y DU ei ddefnyddio wrth benderfynu a ddylai wyro oddi wrth ei gyfraith achosion ei hun?
 - y byddai'r prawf hwn yn hawdd ei ddeall, ac y byddai'n hawdd ei roi ar waith ar draws yr awdurdodaethau drwy gyfeirio at y gyfraith achosion berthnasol?
- Rhowch resymau dros eich atebion. Os nad ydych chi'n cytuno, pa brawf arall rydych chi'n credu y dylid ei ddefnyddio? Rhowch resymau dros eich ateb.
- C10:** Yn eich barn chi, a oes ffactorau y dylid eu cynnwys mewn rhestr o ystyriaethau a fydd yn cael sylw gan Oruchaf Lys y DU, Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban a llysoedd a thriwlynlysoedd eraill sydd wedi cael y pŵer i wyro, wrth iddynt benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a gedwir? Rhowch resymau dros eich ateb.
- C11:** Fel rhan o'r broses ymgynghori hon, hoffem wybod hefyd beth yw eich barn ar effaith debygol y cynigion hyn ar weinyddu cyfiawnder ac, yn benodol, ar y ffordd mae ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn gweithredu.
- Ydych chi o'r farn y byddai'r newidiadau a gynigir yn debygol o gael effaith ar nifer yr achosion sy'n cychwyn yn llysoedd a thriwlynlysoedd y DU? Dywedwch ymhle y byddai hyn yn digwydd yn eich barn chi, a pham.

- b. Ydych chi o'r farn y byddai'r newidiadau a gynigir yn debygol o gael effaith ar y math o achosion sy'n cychwyn yn llysoedd a thribiwnlysoedd y DU? Dywedwch ymhle y byddai hyn yn digwydd yn eich barn chi, a pham.**
- c. Ydych chi o'r farn y byddai'r newidiadau a gynigir yn debygol o gael mwy o effaith ar rannau penodol o'r system gyfiawnder, neu ar ei defnyddwyr? Dywedwch ymhle y gallai hyn ddigwydd yn eich barn chi, a pham.**
- d. Ydych chi o'r farn y byddai'r newidiadau a gynigir yn cael mwy o effaith ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Dywedwch ymhle y gallai hyn ddigwydd yn eich barn chi, a pham.**

C12: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill rydych eisiau i ni eu hystyried yng nghyswllt yr ymgynghoriad hwn?

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Manylion cyswllt / sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb drwy e-bost at:

Joanne Thambyrajah

E-bost: Judicial_Policy_Correspondence@Justice.gov.uk

Ffôn: 020 3334 3181

Symudol: 07870 983128

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Cyhoeddi ymateb

Caiff papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ei rannu â'r holl ymgynghoreion.

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau a gynrychiolant wrth ymateb.

Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati)	
Dyddiad	
Enw cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os ydych yn dymuno i ni gydnabod ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad i anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, nodwch enw'r grŵp hwnnw a rhowch grynodedb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

Cyfrinachedd

Drwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydych yn cydnabod ei bod yn bosib y bydd eich ymateb, a'ch enw/manylion corfforaethol, yn destun trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Mae'r Llywodraeth o'r fan ei bod yn bwysig er budd tryloywder fod y cyhoedd yn gallu gweld pwy sydd wedi ymateb i ymgynghoriadau'r Llywodraeth a beth yw eu barn. At hynny, mae'n bosibl y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dewis peidio â thynnu eich enw/manylion o'ch ymateb rywbryd yn y dyfodol, er enghraifft, os ydych chi'n newid eich meddwl neu'n gofyn am gael eich 'anghofio' o dan ddeddfwriaeth diogelu data, os yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn credu y dylai'r manylion hynny fod yn gyhoeddus er budd y cyhoedd. Os nad ydych chi am i'ch enw/manylion corfforaethol gael eu datgelu fel hyn, yna fe'ch cynghorir i ymateb yn ddienw (er enghraifft fel 'perchennog busnes lleol', 'aelod o'r cyhoedd'). Fel arall, efallai byddwch chi'n dewis peidio ag ymateb o gwbl.



© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:

nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i

Judicial_Policy_Correspondence@Justice.gov.uk